Adfer Natur yng Nghymru:

Pam fod targedau bioamrywiaeth statudol yn hanfodol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd

22 Ebrill 2021

Rhagarweiniad

Mae'n amlwg ers blynyddoedd lawer ein bod yn byw trwy gyfnod o gwymp digynsail mewn bioamrywiaeth, ar lefel fyd-eang ac yma yng Nghymru. Nid yw'r pandemig ond wedi cynyddu ymwybyddiaeth pobl o bwysigrwydd natur i'n hansawdd bywyd, gan danlinellu'r angen am Adferiad Gwyrdd a Glas yn sgîl Covid-19. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn credu bod mynd i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd yn hanfodol ar gyfer lles dynol, ffyniant a thegwch. Mae adfer amgylchedd naturiol iach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn her hanfodol ar gyfer y degawd nesaf.

Er y gwnaed ymdrechion i wyrdroi dirywiad natur ar lefel fyd-eang, gan ddechrau gyda'r Uwchgynhadledd Ddaear nodedig yn Rio de Janeiro ym 1992, daeth y 5ed Rhagolwg Bioamrywiaeth Byd-eang, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni i'r casgliad bod y DU - a gweddill y byd - wedi methu â chymryd camau digonol i wneud hyn. Yng Nghymru, ddaeth Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a gyhoeddwyd yn gynharach eleni i'r casgliad fod bioamrywiaeth yn dirywio'n ddifrifol a bod gwytnwch ecosystemau yng Nghymru yn dirywio yn unol â thueddiadau byd-eang.

Bydd llywodraethau yn dod ynghyd i drafod 15fed Cynhadledd y Pleidiau (COP15) y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD), a gynhelir yn Kunming, China yn ddiweddarach eleni. Bydd y cytundeb terfynol yn cael ei benderfynu yn y gynhadledd ond mae disgwyl iddo gynnwys, ymhlith pethau eraill, darged i atal a dechrau gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2030, gydag adferiad sylweddol erbyn 2050, a tharged i amddiffyn 30% o'r tir 30% o'r foroedd erbyn 2030.

Arweiniad o Gymru

Er mwyn gwyrdroi dirywiad natur yng Nghymru, mae Cyswllt Amgylchedd Cymru'n credu bod rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth, cefnogi targedau byd-eang uchelgeisiol i adfer bioamrywiaeth, ac ymrwymo iddynt, gan adlewyrchu'r targedau hyn mewn deddf gwlad. Bydd hyn yn darparu atebolrwydd hanfodol ac yn canolbwyntio sylw Llywodraeth Cymru ar gyflawni'r targedau a'r cerrig milltir, yn union fel sy'n digwydd gyda'r hinsawdd.

“Datganiad Caeredin”

Y newyddion da yw bod Llywodraeth Cymru eisoes, ynghyd â Llywodraeth yr Alban, wedi arwyddo ‘Datganiad Caeredin’. Mae hyn yn nodi parodrwydd llawer o lywodraethau, dinasoedd ac awdurdodau lleol ledled y byd i chwarae rhan lawn wrth gyflawni'r newid trawsnewidiol sydd ei angen i wyrdroi dirywiad bioamrywiaeth.

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru’n gweithio gyda'n cyd-fudiadau Cyswllt i bwyso ar bob llywodraeth ledled y DU i ymrwymo i ddeddfu ar gyfer targedau adfer natur statudol. Nid yw degawdau o dargedau rhyngwladol o dan y Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol yn ddigonol i yrru'r camau sydd eu hangen i atal dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru. Yr hyn sydd ei angen arnom yw'r un math o ymrwymiad cyfreithiol domestig a sefydlwyd yn hollol briodol i yrru cyflawniad yn erbyn targedau newid yn yr hinsawdd y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol. Yn yr un modd, mae'n rhaid i'r gydnabyddiaeth ryngwladol o'r argyfwng natur a galwadau am newid trawsnewidiol arwain at welliannau mewn uchelgais ac atebolrwydd domestig - h.y. targedau adfer natur sy'n rhwymo'n gyfreithiol.

Sefyllfa yw hon lle gall pawb fod ar eu hennill. Bydd llawer o'r camau y mae'n rhaid inni eu cymryd i amddiffyn bywyd gwyllt sydd dan fygythiad hefyd yn atebion ar sail natur i broblemau fel llifogydd ac erydiad pridd a fyddan nhw hefyd yn helpu i ddal carbon a lleihau allyriadau net nwyon tŷ gwydr. Mae rhaid inni fabwysiadu dull natur gadarnhaol, gan gydnabod gwerth natur, ei roi ar y llwybr at adferiad a thrawsnewid ein byd i un lle mae pobl, economïau a natur yn ffynnu.

Agwedd Llywodraeth Cymru

Mae Cymru wedi nodi ei dull unigryw ei hun, a gellir dadlau ei fod yn arwain y byd, o ran hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol. Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Llywodraeth i wella lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd, gan ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl , cymunedau a gyda’i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, diffyg cydraddoldeb iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gofyn am ddull integredig o reoli adnoddau naturiol er mwyn gwella gwytnwch ein hecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu inni. Mae'r fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a nodir yn y Ddeddf yn cynnwys dull ailadroddol. Mae tystiolaeth (SoNaRR) yn llywio polisi (Polisi Adnoddau Naturiol) a ddylai yrru cyflawniad (gan gynnwys trwy Ddatganiadau Ardal). Fodd bynnag, nid yw’r fframwaith yn nodi sut olwg sydd ar lwyddiant – neu ba gynnydd y mae’n rhaid ei wneud, yn y tymor hir ac mewn cylch pum mlynedd, i asesu a ydym ar y trywydd iawn i droi dirywiad natur cyn ei bod yn rhy hwyr?

Fel sydd gennym ar gyfer datgarboneiddio, mae arnom angen targedau tymor hir a thargedau tymor canol pum mlynedd y gellir dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am adferiad natur. Os na chyrhaeddir targed dros dro, bydd angen i'r Llywodraeth ddadansoddi ac egluro pam, ac effeithio ar

y newidiadau polisi a rheoliadol angenrheidiol i fynd i'r afael â hyn. Mae'r agweddau ar wytnwch ecosystemau a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) yn darparu fframwaith i nodi'r targedau priodol, y mae'n rhaid iddynt gynnwys mesurau rhywogaethau (digonedd, amrediad a pherygl difodiant) a chynefinoedd (cyflwr a graddfa).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Cymru sy'n cydnabod yr angen i wella tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro ac mae gwaith wedi'i gynllunio ar fframwaith o ddangosyddion bioamrywiaeth ar gyfer Cymru. Er bod hyn yn bwysig, yn hanfodol yn wir, nid yw'n rhwymo'n gyfreithiol ac nid yw'n gyfwerth â fframwaith targedau. Dylai'r gwaith hwn, fodd bynnag, helpu i nodi mesurau allweddol a thynnu sylw at fylchau, e.e. wrth fonitro, mae angen mynd i'r afael â hynny.

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod cerrig milltir mewn perthynas â'r dangosyddion cenedlaethol, ac mae gwaith ar hyn yn digwydd. Er bod cynnwys carreg filltir ar gyfer bioamrywiaeth yn sicr yn berthnasol wrth asesu cynnydd ar y Nodau Llesiant, mae'n bwysig nodi na fyddai hyn yn gyfwerth, nac yn goresgyn yr angen am, gyfres o dargedau adfer natur sy'n rhwymo'n gyfreithiol. Mae hyn oherwydd bod y dangosyddion cenedlaethol ar fioamrywiaeth ac ecosystemau ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar rai manylion ac maen nhw'n methu darparu darlun llawn o gynnydd (o'i gymharu â'r targedau yr ydym yn eu cynnig - gweler isod), ac oherwydd nad yw'r fframwaith cyfreithiol o amgylch cerrig milltir yn sicrhau lefel cyfrifoldeb ac atebolrwydd Gweinidogion y darperir ar eu cyfer yn ein deddfwriaeth newid yn yr hinsawdd (Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)), ac sydd ei hangen arnom ar gyfer bioamrywiaeth.

Beth y mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn ei argymell?

Rydym yn galw am i ddeddfwriaeth sylfaenol osod dyletswyddau â therfyn amser ar Weinidogion Cymru i osod, a chyflawni, targedau ar gyfer adferiad natur. Ac mae'n rhaid i'r rhain rwymo'n gyfreithiol a chynnwys targedau tymor hir a thros dro. Dylai'r targedau eu hunain gael eu gosod mewn deddfwriaeth eilaidd yn dilyn ymgynghori ag arbenigwyr a rhanddeiliaid annibynnol (mae dull tebyg yn cael ei ddilyn i osod targedau ar gyfer Lloegr trwy Fesur Amgylchedd Llywodraeth y DU). Gellir defnyddio cyfle deddfwriaeth a addawyd ar egwyddorion a llywodraethiant amgylcheddol ôl-Brexit i gyflwyno'r fframwaith i osod y targedau hwn, gan sicrhau mwy o atebolrwydd Llywodraeth Cymru am droi dirywiad bioamrywiaeth yn unol ag ymrwymiadau rhyngwladol.

Credwn y dylai'r targedau fod yn eang er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol; rhaid iddynt gynnwys digonedd o rywogaethau, dosbarthiad rhywogaethau, risg difodiant rhywogaethau a maint ac ansawdd cynefinoedd ar draws amgylcheddau morol, daearol a dŵr croyw. Dylai'r nod fod i atal dirywiad bioamrywiaeth, a dechrau gwrthdroi, erbyn 2030, gydag adferiad sylweddol erbyn 2050 yn

erbyn llinell sylfaen oddeutu 1970[1]. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi amlinellu ei farn ar y mater hwn yn fwy manwl yn nogfen gan fudiadau Cyswllt y DU (ELUK): Nod Byd-eang ar gyfer Natur a Phobl.

Cyflawni

Bydd targedau natur yn allweddol i fonitro a yw adferiad gwyrdd a glas yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus, ac a yw buddsoddiad cyhoeddus yn sicrhau'r canlyniadau cywir. Er enghraifft, mae Pwyllgor CCERA wedi cydnabod pwysigrwydd targedau penodol ar gyfer adfer bioamrywiaeth mewn perthynas â monitro effeithiolrwydd a gwerth am arian Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol yn ei adroddiad yn 2019 ar rôl y cynllun wrth adfer bioamrywiaeth.

Bydd targedau a osodir yn y gyfraith yn darparu sefydlogrwydd ar draws llywodraethau olynol, gan roi cyd-destun clir ar gyfer cyflenwi cyhoeddus ac arloesi gan fusnesau. Mae Grŵp Aldersgate (cynghrair aml-randdeiliad gan gynnwys rhai o fusnesau mwyaf y DU) wedi croesawu sefydlu targedau tymor hir sy'n rhwymo'n gyfreithiol ar gyfer Lloegr trwy Fesur Amgylchedd San Steffan. O safbwynt busnes, maen nhw'n dweud, "mae'n bwysig bod y targedau'n darparu'r eglurder angenrheidiol ar ddatblygu polisi yn y tymor hir ac amgylchedd buddsoddi sefydlog. Mae targedau clir yn sefydlu fframwaith ar gyfer polisïau, cymorthdaliadau a rheoliadau'r llywodraeth lle gall busnesau dderbyn refeniw rhagweladwy trwy fuddsoddi mewn modelau busnes sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau ac yn amgylcheddol adferol. Gall targedau uchelgeisiol hefyd greu cyfundrefn lle mae busnesau'n cael eu cymell i fynd ymhellach na dim ond cydymffurfio â'r rheolau yn y ffordd leiaf posibl."

[1] Rydym yn cydnabod bod llawer o rywogaethau eisoes wedi dirywio'n sylweddol erbyn lefelau mwy niferus blaenorol erbyn y dyddiad hwnnw. Serch hynny, cymharol ychydig o ddata gwyddonol sydd gennym ar ddigonedd rhywogaethau cyn y dyddiad hwnnw ac felly credwn mai 1970 yw'r dyddiad mwyaf priodol i'w ddefnyddio.

Wales Environment Link (WEL) is a network of environmental, countryside and heritage Non-Governmental Organisations in Wales. WEL is a respected intermediary body connecting the government and the environmental NGO sector. Our vision is a thriving Welsh environment for future generations.

This paper represents the consensus view of a group of WEL members working in this specialist area. Members may also produce information individually in order to raise more detailed issues that are important to their particular organisation.

Swyddfa Caerdydd
Tramshed Tech
Uned D, Stryd Pendyris Caerdydd CF11 6BH
F: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Trydar: @WalesLink

Cardiff Office
Tramshed Tech
Unit D, Pendyris Street, Cardiff CF11 6BH
T: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Twitter: @WalesLink

www.waleslink.org

Cadeirydd | Chair: Roger Thomas. Cyf-Gyfarwyddwyr | Joint Directors: Susan Evans and Karen Whitfield.
Rhif Elusen Gofrestredig | Registered Charity Number: 1022675